

BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU



Cylch Gorchwyl yr Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau

Diben

Bydd yr Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau yn rheoli a chydlynu datblygiad ac adolygiad rheolaidd arweiniad, polisiâu a phrotocolau sy'n berthnasol i ddiogelu oedolion sydd mewn perygl, a phlant a phobl ifanc ar lefel ranbarthol, genedlaethol a ledled y DU.

Amcanion

- Datblygu, cydlynu, ac adolygu polisiâu, arweiniad a phrotocolau rhanbarthol, cenedlaethol a'r DU sy'n ofynnol gan Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (BDCGC)
- Bydd yr Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau yn cyflawni'r cyfrifoldeb ar gyfer datblygu ac adolygu polisiâu a gweithdrefnau ar ran BDCGC.
- Rhannu ac amlygu ymarfer gorau ledled y rhanbarth, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o Ymchwiliadau Cenedlaethol, Adolygiadau Ymarfer a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol.
- Cydweithio'n rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth o ran datblygu a gweithredu polisiâu i ddatblygu a gwella ymarfer cyson.

Aelodaeth

Bydd y grŵp yn cael ei gadeirio gan aelod o BDCGC, wedi'i gefnogi gan Uned Fusnes BDCGC. Bydd aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth briodol o bob asiantaeth bartner BDCGC ar draws yr agenda Plant ac Oedolion fel ei gilydd. Gellir cyd-ethol aelodau o bryd i'w gilydd am eu harbenigedd penodol.

Aelodaeth ym mis Gorffennaf 2017		*I'w gadarnhau
Enw	Asiantaeth a gynrychiolir	
Julie Breckon (Cadeirydd)	Rheolwr Bwrdd Diogelu CGC	
Sian Howys, Is-Gadeirydd	Arweinydd Diogelu Plant, Ceredigion	
Ditectif Arolygydd Fay Lantos	Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed, Heddlu Dyfed Powys	
Cheryl Loughlin	Cynrychiolydd addysg	
Alastair Birch	Cynrychiolydd ERW	
Steve Davis	Cynrychiolydd Cyfiawnder Ieuencid	
Stefan Smith	Pennaeth Gwasanaethau Plant, Sir Gaerfyrddin	
Rebecca Copp	Arweinydd Diogelu Plant, Sir Gaerfyrddin	
Sharon Powell	Arweinydd Diogelu Plant, Powys	
Beacroft, Diane	Pennaeth Gwasanaethau Plant, Sir Benfro	
Karen Arthur	Arweinydd Diogelu Oedolion, Powys	
Donna Pritchard	Arweinydd Diogelu Oedolion, Ceredigion	
Cathy Richards	Arweinydd Diogelu Oedolion, Sir Gaerfyrddin	
Maxine Thomas	Cynrychiolydd Addysg Bellach, Coleg Penfro	
Ruth Harrison	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	
Raquel Bennett	Uwch Nyrs Diogelu, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	
Debbie Osowicz	Gwasanaeth Prawf	
*	Cynrychiolaeth y sector gwirfoddol	

Amllder cyfarfodydd

Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu bob mis, gydag ymrwymiad i ddarparu lleoliadau fideo gynadleddau ym mhob ardal Awdurdod Lleol er cyfleustra.

Llywodraethu

Bydd y Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau yn Is-Grŵp sefydlog o Fwrdd Gweithredol DCGC. Bydd Cadeirydd yr Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Gweithredol DCGC.


Cyfrifoldeb aelodau'r Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau yw ymgynghori'n briodol o fewn eu sefydliad a briffio eu haelodau sefydliadol ar unrhyw faterion perthnasol o ran y polisiâu a'r gweithdrefnau drafft arfaethedig.

Datblygu Polisiâu a Gweithdrefnau

- Bydd yr Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau yn cytuno ar yr adnoddau sydd eu hangen i greu'r ddogfen newydd. Gallai hyn fod trwy sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, nodi adnodd o fewn y grŵp neu gomisiynu arbenigedd allanol.
- Bydd Uned Fusnes BDCGC yn sicrhau bod unrhyw ddrafft yn cael ei ddsbarthu ar gyfer sylwadau ac i gydlynu'r ymateb. Bydd Cadeirydd yr Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau yn adrodd i Fwrdd Gweithredol perthnasol DCGC.
- Bydd yr Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau yn gwneud argymhelliad i Fwrdd Gweithredol perthnasol DCGC. Bydd y Bwrdd Gweithredol naill ai'n cadarnhau neu'n cyfeirio gwaith pellach.
- Bydd Uned Fusnes BDCGC yn ystyried cyfathrebu am bolisiâu a gweithdrefnau a gadarnhawyd gyda'r fforymau rhanbarthol eraill, gan gynnwys y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, pan fo'n berthnasol.
- Bydd yr Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau yn enwebu cynrychiolwyr i unrhyw grwpiau cenedlaethol sy'n edrych ar bolisiâu a gweithdrefnau.
- Bydd y dogfennau terfynol yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Bwrdd i'w lledaenu o fewn eu sefydliad eu hunain. (Gweler y templed lledaenu protocol – Atodiad 2)
- Bydd dogfennau wedi'u cadarnhau yn cael eu rhoi ar wefan BDCGC, lle bo'n briodol.
- Bydd Uned Fusnes BDCGC yn gyfrifol am olrhain polisiâu a gweithdrefnau rhanbarthol a sicrhau bod adolygiadau a dogfennau'n cael eu rheoli'n rheolaidd (Atodiad 3) trwy ei chynllun gwaith/busnes.
- Bydd Uned Fusnes BDCGC yn monitro polisiâu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac yn nodi meysydd i'w dyblygu a'u hadolygu ar ran yr Is-Grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau.
- Bydd sianelau cyfathrebu clir yn cael eu sefydlu rhwng yr Is-Grwpiau Polisiâu a Gweithdrefnau, yr Is-Grwpiau Adolygu Ymarfer Oedolion ac Adolygu Ymarfer Plant a'r Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol ynglŷn â lledaenu ymarfer gorau a chanlyniadau dysgu, ac anghenion ar gyfer staff.

Atodiad 1

Siart Llif ar gyfer datblygu Polisiâu, Protocolau a Gweithdrefnau



Atodiad 2

Monitro Lledaenu Protocolau a Gymeradwywyd gan BDCGC

Teitl y Protocol:	
Dyddiad Cadarnhau:	
Asiantaeth Bartner:	
Sut mae eich sefydliad yn lledaenu'r protocol? Dyddiad cwblhau:	
A ydych chi wedi nodi unrhyw anghenion hyfforddi penodol ar gyfer eich asiantaeth? Sut bydd eich asiantaeth yn mynd i'r afael â'r anghenion hyfforddi hyn?	
Llofnodwyd: Dynodiad: Dyddiad:	

Atodiad 3

Cofnod Statws Dogfen

Polisiau a Nodwyd	Ble nodwyd bod angen polisi	Proses gytûn ar gyfer cwblhau (e.e. gorchwyl a gorffen, Rhithwir)	Unigolyn neu asiantaeth arweiniol a nodwyd	Graddfa amser gytûn ar gyfer cwblhau	Dyddiad Cwblhau	Dyddiad y cadarnhawyd y Polisi gan yr Is-Grŵp Polisiau a Gweithdrefnau	Dyddiad y cadarnhawyd y Polisi gan y Bwrdd Gweithredol	Dyddiad adolygu

